# SL(5)574 – Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Caiff Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") eu gwneud o dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

O dan Gyfarwyddeb 2005/36/EU, a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gwblhau profion cymesuredd wrth reoleiddio proffesiynau. Diben y Rheoliadau hyn yw trosi i gyfraith ddomestig Cyfarwyddeb (EU) 2018/958, a sefydlodd fframwaith manwl ar gyfer cynnal profion cymesuredd o'r fath cyn cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol newydd, neu cyn diwygio darpariaethau deddfwriaethol, ynghylch rheoleiddio proffesiynau.

Bydd y Rheoliadau hyn yn berthnasol i nifer o broffesiynau yng Nghymru lle mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol, gan gynnwys athrawon a phenaethiaid cymwys mewn ysgol, athrawon mewn sefydliad addysg bellach, a phroffesiynau a reoleiddir gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 30 Gorffennaf yn unol â'r rheoliadau cyfatebol sydd wedi'u gwneud yn Lloegr. Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r broses weithredu, sef 31 Rhagfyr 2020 am 23.00, fel y diffinnir yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Cafodd y pwynt a ganlyn ei nodi fel pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Ceir cyfeiriadau anghywir at y ddeddfwriaeth ynghylch cyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y cyfnod gweithredu. Ceir cyfeiriadau at adran 5A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn bodoli. Mewnosododd adran 25(5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ("Deddf 2020") adran 5A newydd yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"), ond nid yw adran 5A wedi dod i rym eto. Mae'r cyfeiriadau anghywir hyn yn ymddangos yn y troednodyn cyntaf ar dudalen 5, ar ail dudalen y Nodiadau Esboniadol ac ar drydydd dudalen y Memorandwm Esboniadol. O ganlyniad, dylai cyfeiriadau dilynol yn y Nodiadau Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol at "adran 2, 3 neu 4 o Ddeddf 2020" gyfeirio at Ddeddf 2018 yn lle.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r broses weithredu, sef 23.00 ar 31 Rhagfyr 2020.

## Ymateb y Llywodraeth

O gofio'r amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen i Lywodraeth Cymru ymateb cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.